aic CYMRU
agricultural industries confederation

Maniffesto Etholiad
Cyffredinol 2024




# Yr hyn sydd ei angen ar fusnesau cadwyn cyflenwi bwyd gan lywodraeth nesaf y DU

Cynhyrchiant | Cynaliadwyedd | Cystadleurwydd

# Sut rydym yn cefnogi cadwyni cyflenwi bwyd y DU

**Mae'r Cydffederasiwn Diwydiannau Amaethyddol (AIC) yn cynrychioli busnesau mewn sectorau allweddol o fewn y cadwyni cyflenwi sy'n bwydo'r genedl.**


Rydym yn cynrychioli'r busnesau sy'n cyflenwi ffermwyr y DU â'r porthiant anifeiliaid, gwrtaith, hadau, cynhyrchion diogelu cnydau a gwasanaethau cynghori sy'n hanfodol i gynhyrchu bwyd, ynghyd â chwmnïau sy'n masnachu cnydau a nwyddau amaethyddol yn fyd-eang.

Mae AIC yn llais ledled y DU ar gyfer y busnesau sy'n darparu'r cynhyrchion, gwasanaethau a chynlluniau sicrwydd masnach sy'n hanfodol ar gyfer cyflenwi bwyd, diod a phorthiant anifeiliaid ein gwlad yn ddiogel ac ar gyfer sicrhau hyder cadarn ynddynt. Rydym hefyd yn aelodau gweithredol o bedair cymdeithas fasnach Ewropeaidd, ac yn dilyn materion polisi Ewropeaidd a rhyngwladol yn agos.

Rydym yn bartner cydnabyddedig, gwybodus ac uchel ei barch ar gyfer y llywodraeth, gweinidogion, ASau ac arglwyddi ar draws pob plaid. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac yn helpu i lunio polisi i greu dyfodol cynhyrchiol, cynaliadwy a chystadleuol ar gyfer cyflenwad bwyd ein cenedl.

SGANIWCH FI

## CADWYN CYFLENWI BWYD Y DU




## MAE AIC YN CYNRYCHIOLI

| | | |
|---|---|---|
| 230 | £17 BILIWN | £2.5 BILIWN |
| O GWMNÏAU | TROSIANT O | ALLFORION O |

# Blaenoriaethau Etholiadol AIC

# Yr hyn sydd ei angen arnom gan lywodraeth nesaf y DU

## 1 Agwedd gynhwysfawr, gydlynol gan Lywodraeth y DU at ein diogelwch bwyd a'n defnydd o dir

Mae'r hyn a wnawn gyda'n hadnodd tir, a'r bwyd a gynhyrchwn ag ef, yn bwysig i'n heconomi, ein cynhyrchiant, ein hamgylchedd, a'n pobl. Yn wahanol i wledydd eraill, nid oes gan y DU strategaeth gydgysylltiedig, draws-lywodraethol ar ddefnydd tir neu ddiogelwch bwyd. Er mwyn gwneud penderfyniadau cynllunio strategol hirdymor, mae angen i fusnesau fod yn glir ynghylch gweledigaeth y llywodraeth nesaf ar gyfer ein tir a rôl cynhyrchwyr bwyd ynddi.

**Mae AIC yn galw am sefydlu pwyllgor diogelwch bwyd statudol**, annibynnol a fydd yn ystyried y cydbwysedd sydd ei angen o ran cynhyrchu bwyd a defnyddio tir ar gyfer y DU a holl adrannau Whitehall.

**Ewch i wefan AIC i ddarllen yr adroddiad annibynnol "Powering Productivity for Sustainable UK Food Security"**, a gomisiynwyd gan AIC i asesu cynhyrchiant y sector bwyd-amaeth ac i wneud argymhellion i wella diogelwch bwyd y DU yn gynaliadwy.

SGANIWCH FI

## 2 Gwella masnach gyda'r UE, ac o fewn gwledydd y DU

Mae angen i'r llywodraeth nesaf fynd i'r afael â'r rhwystrau sydd wedi codi oherwydd y cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE sydd wedi gwneud nwyddau'n anoddach i'w mewnforio a'u hallforio. Mae cyrff rheoleiddio'r DU yn cael trafferth gyda gweithredu hyn, ac mae beichiau'n arwain at oedi costus a gwaith papur ychwanegol i fasnachu mewn nwyddau. Mae hyn hefyd yn effeithio ar farchnad fewnol y DU, gan greu anghysondebau mewn deddfwriaeth ar draws y pedair gwlad.

**Mynd ati i olrhain a monitro gwahaniaethau mewn polisïau a safonau rhwng y DU a'r UE, ac o fewn Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.** Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw bolisi neu fecanwaith ffurfiol wedi'i sefydlu gan Lywodraeth y DU i fonitro nac olrhain y gwahaniaethau polisi cynyddol rhwng y DU a'r UE, gyda chyrff masnach a busnesau yn cael eu gadael i wneud y gwaith hollbwysig hwn eu hunain.

**Negodi cytundeb milfeddygol gweithredol neu "iechydol/ffytoiechydol (SPS)" gyda'r UE**. Byddai hyn yn caniatáu i nwyddau gael eu masnachu'n haws gyda'r UE a Gogledd Iwerddon, wrth barchu annibyniaeth y DU mewn masnach a deddfwriaeth.

## 3 Agwedd gyson at gynaliadwyedd yn y gadwyn cyflenwi bwyd

Gofynnir am gymwysterau cynaliadwyedd ar lefel cynnyrch a busnes gan ddefnyddwyr a chadwyni cyflenwi. Mae mynediad at wybodaeth gyson a chywir yn hanfodol i adeiladu hygrededd a hyder mewn honiadau a wneir ochr yn ochr â thegwch yn y system fwyd.

**Mae AIC yn gofyn i'r llywodraeth nesaf helpu i hwyluso'r gwaith hwn a sicrhau nad yw amaethyddiaeth y DU o dan anfantais.**

Er mwyn sicrhau bod ein cadwyn cyflenwi bwyd yn pontio i sero net, rhaid i'r llywodraeth nesaf **ymrwymo i dirwedd cyllid cyhoeddus a phreifat cyfun, gan gynnwys credydau treth a chymorth pontio gwyrdd**. Mae gwledydd eraill wedi gwneud y buddsoddiad hwn eisoes, ac mae'r DU mewn perygl o gael ei gadael ar ôl.



## Cysylltwch i drafod ein maniffesto



**Michael Muncey**
Rheolwr Polisi, AIC Cymru

Michael.Muncey@agindustries.org.uk
07785 518037

Agricultural Industries Confederation Limited
First Floor, Unit 4 The Forum, Minerva Business Park,
Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT.

agindustries.org.uk